TGAU (9-1)

CBAC Eduqas TGAU (9-1) mewn

# CYMDEITHASEG

ACHREDWYD GAN OFQUAL
DYNODWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# MANYLEB

Addysgu o 2017
I'w ddyfarnu o 2019

Fersiwn 2 Ionawr 2019



# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran ‘Cofrestru’ i egluro rheolau ailsefyll. | 16 |

© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU CBAC Eduqas (9-1) mewn CYMDEITHASEG

## I'w addysgu o 2017
## I'w ddyfarnu o 2019


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | **2** |
| **1.** | **Rhagarweiniad** | **3** |
| | 1.1 Nodau ac amcanion | 3 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 4 |
| | 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg | 4 |
| **2.** | **Cynnwys y pwnc** | **5** |
| | 2.1 Cydran 1 | 6 |
| | 2.2 Cydran 2 | 11 |
| **3.** | **Asesu** | **15** |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 15 |
| **4.** | **Gwybodaeth dechnegol** | **16** |
| | 4.1 Cofrestru | 16 |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 16 |


© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU CYMDEITHASEG
## CRYNODEB O'R ASESU

**Cydran 1: Deall Prosesau Cymdeithasol**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud**
**50% o'r cymhwyster**

Mae'r gydran hon yn ymdrin â'r meysydd testun canlynol:
- Cysyniadau a phrosesau allweddol trosglwyddo diwylliant
- Teuluoedd
- Addysg
- Dulliau ymchwil cymdeithasegol

Asesiad ysgrifenedig yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig a chwestiynau atebion estynedig. Mae pob cwestiwn yn orfodol. Yn y cwestiynau atebion estynedig, bydd gofyn i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth gwahanol o'r cynnwys perthnasol yn y fanyleb.

**Cydran 2: Deall Strwythurau Cymdeithasol**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud**
**50% o'r cymhwyster**

Mae'r gydran hon yn ymdrin â'r meysydd testun canlynol
- Gwahaniaethu cymdeithasol a haenu
- Trosedd a gwyredd
- Dulliau cymhwysol o ymholi cymdeithasegol

Asesiad ysgrifenedig yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig a chwestiynau atebion estynedig. Mae pob cwestiwn yn orfodol. Yn y cwestiynau atebion estynedig, bydd gofyn i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth gwahanol o'r cynnwys perthnasol yn y fanyleb.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael i'w asesu ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Bydd y dyfarniad cyntaf yn haf 2019.

**Rhif Cymhwyster Ofqual (a restrir ar The Register): 603/1045/5**

**Rhif Dynodi Cymwysterau Cymru (a restrir ar QiW): C00/1176/4**

© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU CYMDEITHASEG

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac Amcanion

Lluniwyd y cymhwyster CBAC Eduqas TGAU Cymdeithaseg er mwyn i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol o'r byd cymdeithasol o'u cwmpas. Mae'r fanyleb yn canolbwyntio ar ba mor bwysig yw strwythur cymdeithasol o ran esbonio materion cymdeithasol.

Anogir dysgwyr i archwilio a dadlau materion cymdeithasol cyfoes. Drwy wneud hynny byddant yn gallu herio tybiaethau sy'n cael eu cymryd yn ganiataol ac amau'r ddealltwriaeth bob dydd sydd ganddynt o ffenomenâu cymdeithasol. Bydd dysgwyr, wrth ddilyn y cwrs hwn, yn datblygu eu hymwybyddiaeth gymdeithasegol eu hunain drwy ymgysylltu gweithredol â'r byd cymdeithasol cyfoes.

Bydd y fanyleb hon yn datblygu gallu dysgwyr i feddwl yn gymdeithasegol mewn perthynas â'u profiad o'r byd cymdeithasol o'u cwmpas. Gallant, felly, chwarae rôl gadarnhaol, weithredol a gwybodus yn y gymdeithas.

Yn y fanyleb CBAC Eduqas TGAU Cymdeithaseg hon mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cymdeithasegol at ddatblygu dealltwriaeth o'r perthnasoedd a'r tensiwn rhwng strwythurau cymdeithasol a chyfrwng unigol yng nghyd-destun y DU ac yn fyd-eang.
- dadansoddi gwybodaeth yn feirniadol a defnyddio tystiolaeth i lunio dadleuon gwybodus, llunio barn wedi'i chyfiawnhau a thynnu casgliadau
- defnyddio a chymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae strwythurau a phrosesau cymdeithasol yn dylanwadu ar reolaeth gymdeithasol, grym ac anghydraddoldeb
- defnyddio damcaniaethau cymdeithasegol i ddeall materion, dadleuon a newidiadau cymdeithasol yn ogystal â'r hyn sydd ddim yn newid dros amser
- deall a gwerthuso methodoleg gymdeithasegol ac amrediad o ddulliau ymchwil
- defnyddio terminoleg gymdeithasegol yn briodol a gwneud cysylltiadau rhwng meysydd allweddol o gynnwys y pwnc.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon.  Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio cymdeithaseg naill ai ar lefel UG neu safon Uwch.  Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.  Bydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygir o astudio TGAU Cymdeithaseg yn gweithio hefyd fel sail ar gyfer dysgu pellach a dewisiadau gyrfa.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol.  Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain).  Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC):  *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).  Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Yn y fanyleb TGAU hon mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- astudio'r cynnwys yng nghyd-destun y DU oni nodir yn wahanol
- astudio, gwerthuso'n feirniadol a chymharu a chyferbynnu damcaniaethau neu esboniadau, gan gynnwys nodweddion allweddol pob damcaniaeth neu esboniad yng nghyd-destun y maes penodol o gymdeithaseg.

Yng Nghydran 1, bydd dysgwyr yn ystyried sut mae bodau dynol yn caffael eu hunaniaeth ac yn archwilio'r broses o drosglwyddo diwylliant o genhedlaeth i genhedlaeth ac mewn sefyllfaoedd gwahanol. Anogir dysgwyr i ystyried sut maen nhw'n caffael eu hunaniaeth fel unigolion. Mae'r thema hon yn parhau drwy astudiaeth fanwl o ddau gyfrwng cymdeithasoli: teuluoedd ac addysg, a fydd yn cynnig dealltwriaeth ddwys, fwy damcaniaethol o'r byd cymdeithasol i ddysgwyr ac ymwybyddiaeth bod proses cymdeithasoli yn rhywbeth y mae dadl yn ei chylch.

Bydd y cysyniadau a'r damcaniaethau a ddefnyddir drwy Gydran 1 yn cael eu cymhwyso at ddealltwriaeth a dadansoddiad o'r meysydd testun yng Nghydran 2.

Yng Nghydran 2, bydd dysgwyr yn gwella'r ymwybyddiaeth sydd ganddynt o'r byd cymdeithasol drwy archwilio strwythurau cymdeithasol a'u dylanwad ar ymddygiad bodau dynol. Hefyd, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o natur a maint yr anghydraddoldeb. Byddant yn archwilio damcaniaethau cystadleuol ynghylch achosion anghydraddoldeb drwy astudio syniadau cymdeithasegwyr clasurol, ac astudio trosedd a gwyredd yn fanylach.

Anogir dysgwyr, mewn dulliau cymhwysol o ymholi cymdeithasegol, i ddatblygu'r ddealltwriaeth sydd ganddynt o'r broses ymchwil drwy astudio'r camau cyflawni ymchwil a dehongli data. Bydd hyn o gymorth wrth iddynt asesu'r dystiolaeth a ddefnyddir yn y naill gydran a'r llall.

**Sgiliau**
Yn y ddwy gydran mae gofyn i ddysgwyr gyfleu sgiliau hanfodol a ddatblygwyd yn eu hastudiaeth o gymdeithaseg; hynny yw, y gallu i ddangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion allweddol yng nghyd-destun damcaniaethau a methodoleg gymdeithasegol. Hefyd, mae disgwyl i ddysgwyr ddewis, dehongli, gwerthuso a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrediad o gyd-destunau damcaniaethol ac ymarferol.

Bydd disgwyl i ddysgwyr hefyd gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hyn at amrediad o faterion methodolegol perthnasol a'u gwerthuso.

Yn y fanyleb hon mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth o ffynonellau gwahanol a dangos eu bod yn gallu eu syntheseiddio
- dadansoddi a gwerthuso dulliau ymchwil gwahanol a ddefnyddir mewn ymholiadau cymdeithasegol ac asesu, yn feirniadol, pa mor briodol yw eu defnyddio
- dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynir ar ffurfiau ysgrifenedig, gweledol a rhifiadol gwahanol
- defnyddio'r ddealltwriaeth sydd ganddynt i archwilio a dadlau'r materion cymdeithasegol cyfoes a amlinellir ym mhob un o'r meysydd testun
- defnyddio damcaniaethau a thystiolaeth cymdeithasegol i gymharu a chyferbynnu materion cymdeithasol, llunio dadleuon a thrafodaeth wedi'u rhesymu, llunio barn wedi'i chyfiawnhau a thynnu casgliadau
- gwneud cysylltiadau rhwng y meysydd testun gwahanol a astudir.

© WJEC CBAC Ltd.

Yn ogystal, yn y fanyleb hon mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau cymdeithasegol allweddol drwy ddarllen darnau sy'n enghreifftio'r safbwyntiau gwahanol sydd gan gymdeithasegwyr am y testunau a astudiwyd ac ymateb iddynt. Dylai myfyrwyr allu dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol sut y dehonglodd y cymdeithasegwyr hyn y materion dan sylw.

## 2.1 Cydran 1

**Cydran 1: Deall Prosesau Cymdeithasol**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
50% o'r cymhwyster
100 marc

Mae'r gydran hon yn canolbwyntio ar themâu cymdeithasoli, hunaniaeth a diwylliant. Bydd dysgwyr yn astudio cysyniadau a phrosesau allweddol trosglwyddo diwylliant, gan gynnwys cymdeithasoli a chaffael hunaniaeth, ac yn eu datblygu drwy astudiaeth fanwl o deuluoedd ac addysg.

Cyflwynir dulliau ymchwil cymdeithasegol fel maes testun ar wahân. Fodd bynnag, dylai dulliau ymchwil dreiddio drwy'r cwrs cyfan. Wrth iddynt ystyried y dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi neu herio damcaniaethau yn eu hastudiaeth o deuluoedd ac addysg, dylid annog dysgwyr i archwilio'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd, pa mor ddibynadwy ydynt a pha mor briodol ydynt i'r astudiaeth honno. Bydd gwneud hyn o gymorth i ddysgwyr ddeall pa mor bwysig yw asesu'r dulliau ymchwil a ddefnyddir wrth gasglu tystiolaeth.

Mae damcaniaeth gymdeithasegol a pha mor berthnasol ydyw mewn cymdeithas gyfoes hefyd yn treiddio drwy'r cwrs. Dylai dysgwyr fod yn gyfarwydd â damcaniaethau cymdeithasegwyr clasurol penodol a pha mor berthnasol ydynt i gymdeithas gyfoes.

Oni nodir yn wahanol, dylid rhoi ystyriaeth i bob damcaniaeth ac astudiaeth yng nghyd-destun y DU.

| 1. Cysyniadau a phrosesau allweddol trosglwyddo diwylliant | Cynnwys gofynnol |
|---|---|
| 1.1 Cysyniadau cymdeithasegol allweddol | • diwylliant, normau, gwerthoedd, rolau, statws, hunaniaeth, sancsiynau, amrywiaeth ddiwylliannol |
| 1.2 Dadleuon ynghylch caffael hunaniaeth | • natur/magwraeth gan gynnwys enghreifftiau o blant gwyllt ac amrywiaeth ddiwylliannol |
| 1.3 Proses cymdeithasoli | • cyfryngau cymdeithasoli: teulu, addysg, cyfryngau, grŵp cyfoedion<br>• sut mae cyfryngau cymdeithasoli'n trosglwyddo diwylliant a hunaniaeth, er enghraifft: rhywedd, dosbarth a hunaniaeth ethnig<br>• rheolaeth gymdeithasol anffurfiol a ffurfiol |

© WJEC CBAC Ltd.

| **2 Teuluoedd** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 2.1 Amrywiaeth deuluol a mathau gwahanol o deuluoedd yn y DU ac mewn cyd-destun byd-eang | • beth yw teulu?<br>• teulu cnewyllog, teulu estynedig, teulu adluniedig, teulu rhiant sengl, teulu un rhyw, teulu sy'n cyd-fyw, teulu polyn ffa<br>• mathau o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig<br>• mathau o deuluoedd global gan gynnwys amlweddog, priodasau wedi'u trefnu<br>• polisi teulu un plentyn yn China |
| 2.2 Newidiadau cymdeithasol a strwythurau teuluol | • newidiadau mewn normau cymdeithasol, seciwlareiddio, gwerthoedd a chyfreithiau, ffeministiaeth, ffactorau economaidd, technoleg a mewnfudo a'u heffaith ar<br>o amrywiaeth deuluol, gan gynnwys gwaith Rapoport a Rapoport<br>o cyfraddau ysgaru a monogami cyfresol<br>o cyd-fyw, teuluoedd rhiant sengl, oedran priodi hŷn<br>o byw yn sengl<br>o maint teulu |
| 2.3 Newidiadau cymdeithasol a pherthnasoedd teuluol | • newidiadau mewn normau cymdeithasol, seciwlareiddio, gwerthoedd a chyfreithiau, ffeministiaeth<br>• ffactorau economaidd, technoleg a'u heffaith ar<br>o rolau priodasol ar wahân ac ar y cyd, teuluoedd cymesur, rhannu llafur domestig<br>o Dyn Newydd<br>o gwneud penderfyniadau / rheoli arian<br>o teuluoedd dwy yrfa<br>o gweithgareddau hamdden<br>o damcaniaeth teulu cymesur ac egwyddor ymlediad haenedig, wedi'i ddatblygu o safbwynt swyddogaethol Willmott a Young<br>• patrymau magu plant a theuluoedd plant ganolog<br>• plant 'bwmerang'<br>• cenhedlaeth 'frechdan' |
| 2.4 Damcaniaethau cymdeithasegol am rôl y teulu | • dadl gwrthdaro yn erbyn consensws am rôl y teulu<br>• safbwynt consensws Swyddogaetholdeb<br>• damcaniaeth Swyddogaethol am rôl a swyddogaethau'r teulu, megis Parsons a chymdeithasoli cynradd a sefydlogi personoliaethau'r oedolyn<br>• safbwynt gwrthdaro Marcsaeth<br>• damcaniaeth Farcsaidd am deuluoedd yn gweithredu er budd cyfalafiaeth, gan gynnwys gwaith Zaretsky<br>• safbwynt gwrthdaro Ffeministiaeth<br>• beirniadaeth Ffeministaidd am y teulu fel sefydliad patriarchaidd, gan gynnwys gwaith Delphy a Leonard ac Oakley a'r teulu confensiynol<br>• safbwyntiau’r Dde Newydd am y teulu |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| 2.5 Beirniadaethau am y teulu | • colli swyddogaethau traddodiadol<br>• diffyg cyswllt â rhwydwaith carennydd ehangach<br>• teuluoedd camweithredol<br>• statws a rôl menywod<br>• arwahanrwydd a disgwyliadau afrealistig<br>• tor priodas ac ysgariad<br>• ochr dywyll bywyd teuluol gan gynnwys trais domestig<br>• dirywiad y teulu traddodiadol |

| **3 Addysg** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 3.1 Damcaniaethau cymdeithasegol am rôl addysg | • dadl gwrthdaro yn erbyn consenswys am rôl addysg<br>• safbwynt consenswys Swyddogaetholdeb<br>• damcaniaeth Swyddogaethol am addysg<br>  o gwasanaethu anghenion y gymdeithas a'r economi gan hwyluso symudedd cymdeithasol a meithrin cydlyniad cymdeithasol gan gynnwys gwaith Durkheim ar addysg fel trosglwyddiad normau a gwerthoedd<br>  o statws a gyflawnwyd ac addysg yn gweithredu ar egwyddorion meritocrataidd, gan gyfeirio at waith Parsons<br>• safbwynt gwrthdaro Marcsaeth<br>• damcaniaeth Farcsaidd am addysg yn gwasanaethu anghenion cyfalafiaeth<br>  o cynnal anghydraddoldeb drwy addysg, gan gynnwys gwaith Bowles a Gintis ar y ddamcaniaeth cyfatebiaeth<br>• safbwynt gwrthdaro Ffeministiaeth<br>• damcaniaeth Ffeministaidd am addysg yn gwneud i batriarchaeth barhau, gan gynnwys gwaith Becky Francis am natur batriarchaidd ysgolion |
| 3.2 Prosesau mewn ysgolion. | • prosesau mewn ysgolion yn effeithio ar gyflawniad addysgol<br>  o labelu, gan gynnwys gwaith Hargreaves<br>  o cwricwlwm cudd<br>  o ffrydio, bandio<br>  o isddiwylliannau gwrth-ysgol gan gynnwys gwaith Willis<br>  o disgwyliadau athrawon, gan gynnwys gwaith Ball<br>  o proffwydoliaeth hunangyflawnol |
| 3.3 Patrymau cyflawniad addysgol | • patrymau cyrhaeddiad yn ôl<br>  o rhywedd<br>  o dosbarth cymdeithasol<br>  o ethnigrwydd |

© WJEC CBAC Ltd.

| 3 Addysg (parhad) | Cynnwys gofynnol |
|---|---|
| 3.4 Ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol | • dosbarth cymdeithasol<br>  ○ cyfraniad ffactorau materol, gan gynnwys gwaith Halsey ar anghydraddoldebau seiliedig ar ddosbarth<br>  ○ ffactorau diwylliannol<br>  ○ labelu<br>  ○ dalgylchoedd<br>  ○ mathau o ysgolion, gan gynnwys gwaith Ball ar ffrydio, dewis a chystadleuaeth rhwng ysgolion<br>  ○ diwylliannau gwrth-ysgol, gan gynnwys gwaith Willis<br>• ethnigrwydd<br>  ○ cyfraniad ffactorau materol a diwylliannol<br>  ○ cwricwlwm<br>  ○ labelu<br>  ○ hiliaeth |
| 3.5 Ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol | • rhywedd<br>  ○ cyfraniad mwy o gyfleoedd cyflogaeth i fenywod<br>  ○ ffeministiaeth<br>  ○ ffemineiddio ysgolion<br>  ○ argyfwng gwrywdod<br>  ○ pwysau gan gyfoedion ac isddiwylliannau |

| 4 Dulliau ymchwil cymdeithasegol | Cynnwys gofynnol |
|---|---|
| 4.1 Defnyddioldeb mathau gwahanol o ddata | • data cynradd ac eilaidd<br>• dadansoddi ansoddol a meintiol<br>• ffynonellau data eilaidd, gan gynnwys dyddiaduron, cyfnodolion, ystadegau swyddogol ac answyddogol<br>• defnyddioldeb y mathau hyn o ddata i gymdeithasegwyr |
| 4.2 Dulliau ymchwil | • dulliau ansoddol a meintiol gan gynnwys<br>  ○ holiaduron<br>  ○ cyfweliadau strwythuredig ac anstrwythuredig<br>  ○ mathau gwahanol o arsylwadau<br>• gwerth, cymhwysiad ymarferol a chryfderau a gwendidau dulliau gwahanol yn nhermau<br>  ○ dilysrwydd<br>  ○ dibynadwyedd<br>  ○ moeseg<br>  ○ cynrychioldeb<br>• ymagweddau dulliau cymysg |
| 4.3 Prosesau samplu | • technegau sampl cynrychiadol ac anghynrhychiadol |

© WJEC CBAC Ltd.

| **4 Dulliau ymchwil cymdeithasegol (parhad)** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 4.4 Materion ymarferol sy'n effeithio ar ymchwil | • mynediad at y rhai sy'n destun ymchwil<br>• porthor i ganiatáu mynediad<br>• amser a chost ymchwil |
| 4.5 Materion moesegol sy'n effeithio ar ymchwil | • cydsyniad gwybodus<br>• cyfrinachedd<br>• niwed i gyfranogwyr<br>• twyll<br>• strategaethau y mae cymdeithasegwyr yn eu defnyddio i fynd i'r afael â materion |

© WJEC CBAC Ltd.

## 2.2 Cydran 2.2

**Cydran 2: Deall Strwythurau Cymdeithasol**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
50% o'r cymhwyster
100 marc

Mae'r gydran hon yn canolbwyntio ar wahaniaethu cymdeithasol, grym a haenu. Mae hyn yn cynnwys thema grym, materion trefn gymdeithasol a rheolaeth gymdeithasol, ar sail astudiaeth o drosedd a gwyredd. Mae dysgwyr hefyd yn astudio dulliau cymhwysol o ymholi cymdeithasegol.

Bydd ystyried y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth ar gyfer y damcaniaethau a astudiwyd yng Nghydran 2 yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o ddulliau ymchwil cymdeithasegol a astudiwyd yng Nghydran 1.

Mewn dulliau ymholi cymdeithasegol cymhwysol, anogir dysgwyr i ddatblygu ymhellach y ddealltwriaeth sydd ganddynt o'r broses ymchwil a gwneud hynny drwy ystyried camau cynnal yr ymchwil ac wrth ddehongli data. Bydd hyn o gymorth wrth iddynt asesu'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi neu herio damcaniaethau yn y naill gydran a'r llall.

| **5 Gwahaniaethu cymdeithasol a haenu** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 5.1 Damcaniaethau cymdeithasegol am haenu | • dadl gwrthdaro yn erbyn consensws am haenu<br>• safbwynt consensws Swyddogaetholdeb<br>• damcaniaeth Swyddogaethol am haenu<br>  ○ damcaniaeth Davis a Moore am rôl haenu yn nhermau pennu rolau'n effeithiol a pherfformiadau sy'n gysylltiedig ag addewid o wobrau<br>  ○ meritocratiaeth<br>• safbwynt gwrthdaro Marcsaeth<br>• damcaniaeth Farcsaidd am haenu cymdeithasol<br>  ○ dosbarthiadau economaidd gymdeithasol a system dau ddosbarth<br>  ○ grym bourgeoisie i ecsbloetio'r proletariat a chynnal eu safle<br>  ○ ymwybyddiaeth ffug o ddosbarth<br>• safbwynt gwrthdaro Weber<br>• damcaniaeth Weberaidd am haenu<br>  ○ dosbarthiadau economaidd gymdeithasol<br>  ○ damcaniaeth dosbarth, statws a phlaid<br>• safbwynt gwrthdaro Ffeministiaeth<br>  ○ safbwyntiau Ffeministaidd am batriarchaeth a haenu |
| 5.2 Mathau a ffynonellau gwahanol o rym ac awdurdod | • ffynonellau grym ffurfiol ac anffurfiol<br>• cyfryngau rheolaeth gymdeithasol<br>• damcaniaeth Weberaidd o awdurdod<br>  ○ traddodiadol<br>  ○ carismataidd a<br>  ○ rhesymol–cyfreithiol |

© WJEC CBAC Ltd.

| **5 Gwahaniaethu cymdeithasol a haenu (parhad)** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 5.3 Cydraddoldeb/anghydraddoldeb mewn perthynas â dosbarth, rhywedd, ethnigrwydd, oedran, anabledd a rhywioldeb | • dylid defnyddio tystiolaeth ac enghreifftiau i ddangos cydraddoldeb/anghydraddoldeb yn y DU gyfoes yn deillio o'r meysydd canlynol:<br>o addysg<br>o trosedd<br>o incwm a chyfoeth<br>o iechyd<br>o teulu<br>o gwaith<br>o y cyfryngau |
| 5.4 Ffactorau a allai ddylanwadu ar fynediad at gyfleoedd bywyd a grym | • ffactorau a allai ddylanwadu ar ddosbarth, rhywedd, ethnigrwydd, oedran, anabledd a rhywioldeb<br>o lluniad cymdeithasol o hunaniaeth/rolau, statws<br>o rhagfarn, gwahaniaethu<br>o stereoteipio, labelu<br>o gwneud bwch dihangol<br>o cynrychioliad yn y cyfryngau<br>o deddfwriaeth<br>o panig moesol<br>o isddiwylliannau<br>• gan gyfeirio'n benodol at ddosbarth cymdeithasol<br>o ysgolion preifat<br>o rhwydwaith cyn-ddisgyblion *(old boys network)*<br>o gweithiwr cyfoethog, gan gynnwys gwaith Devine<br>• gan gyfeirio'n benodol at rywedd<br>o rhywiaeth<br>o nenfwd gwydr<br>o patriarchaeth, gan gynnwys gwaith Walby<br>o argyfwng gwrywdod<br>• gan gyfeirio'n benodol at ethnigrwydd<br>o hiliaeth, hiliaeth sefydliadol<br>• gan gyfeirio'n benodol at oedran<br>o oedraniaeth<br>• gan gyfeirio'n benodol at anabledd<br>o modelau anabledd meddygol a chymdeithasol<br>• gan gyfeirio'n benodol at rywioldeb<br>o homoffobia<br>• crefydd a chred |
| 5.5 Tlodi fel mater cymdeithasol | • tlodi absoliwt a chymharol, gan gynnwys gwaith Townsend am amddifadedd cymharol<br>• amddifadedd materol<br>• grwpiau â thueddiad at dlodi<br>• diwylliant tlodi, gan gynnwys gwaith Murray am y tanddosbarth<br>• cylch amddifadedd<br>• all-gau a chynhwysiant cymdeithasol<br>• effaith globaleiddio |

© WJEC CBAC Ltd.

| **Trosedd a gwyredd** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 6.1 Lluniad cymdeithasol cysyniadau trosedd a gwyredd | • beth yw trosedd?<br>• beth yw gwyredd?<br>• amrywiadau hanesyddol a diwylliannol<br>• lluniad cymdeithasol trosedd a gwyredd |
| 6.2 Rheolaeth gymdeithasol | • rheolaeth gymdeithasol anffurfiol a ffurfiol a rheolau anysgrifenedig<br>• cyfryngau rheolaeth gymdeithasol anffurfiol<br>  ○ teulu<br>  ○ grŵp cyfoedion<br>  ○ addysg<br>  ○ crefydd<br>  ○ y cyfryngau<br>• sancsiynau<br>• rheolaeth gymdeithasol ffurfiol<br>  ○ rôl yr heddlu a llysoedd |
| 6.3 Patrymau ymddygiad troseddol a gwyrdroëdig | • patrymau ymddygiad troseddol yn ôl:<br>  ○ dosbarth cymdeithasol<br>  ○ ethnigrwydd<br>  ○ oedran<br>  ○ rhywedd |
| 6.4 Damcaniaethau ac esboniadau cymdeithasegol gwyredd ac ymddygiad troseddol (strwythurol, isddiwylliannol, rhyngweithiadol a ffeministaidd) | • dadl gwrthdaro yn erbyn consensws<br>• safbwynt consensws Swyddogaetholdeb<br>  ○ swyddogaethau trosedd<br>  ○ anomi, gan gynnwys gwaith Merton a damcaniaeth straen<br>• damcaniaeth Isddiwylliannol<br>  ○ Albert Cohen ac isddiwylliannau tramgwyddus<br>• safbwynt gwrthdaro Marcsaeth<br>  ○ Chambliss a gorfodi'r gyfraith yn wahaniaethol<br>  ○ trosedd goler wen a throsedd gorfforaethol<br>• Rhyngweithedd<br>  ○ cysyniad y troseddwr nodweddiadol<br>  ○ labelu<br>  ○ proffwydoliaeth hunangyflawnol, gan gynnwys gwaith Becker a'r yrfa wyrdroëdig<br>  ○ panig moesol<br>• safbwynt gwrthdaro Ffeministiaeth<br>  ○ rheolaeth gymdeithasol, gan gynnwys gwaith Heidensohn am gydymffurfiad benywaidd mewn cymdeithas lle mae dynion yn dominyddu<br>  ○ menywod a thlodi gan gynnwys gwaith Carlen<br>  ○ thesis sifalri<br>• ethnigrwydd a throsedd<br>  ○ hiliaeth<br>  ○ hiliaeth sefydliadol<br>  ○ gwneud bwch dihangol |

© WJEC CBAC Ltd.

| **6 Trosedd a gwyredd (parhad)** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 6.5 Ffynonellau data am drosedd | • patrymau a thueddiadau ymddygiad troseddol<br>• ystadegau swyddogol<br>• astudiaethau dioddefwr a hunanadrodd<br>• defnyddioldeb ffynonellau data am drosedd<br>  ○ ffigur tywyll troseddau<br>  ○ troseddau nad ydynt yn cael eu hadrodd a throseddau nad ydynt yn cael eu cofnodi<br>  ○ tuedd yr heddlu a labelu<br>  ○ panig moesol<br>  ○ trosedd anweledig |

| **7 Dulliau cymhwysol o ymholi cymdeithasegol** | **Cynnwys gofynnol** |
|---|---|
| 7.1 Y broses o ddylunio ymchwil | • dewis maes ymchwil<br>• penderfynu ar nod a/neu ragdybiaeth<br>• dewis dull<br>• defnyddio astudiaeth beilot<br>• dethol technegau samplu<br>• dadansoddi data<br>• defnyddioldeb yr ymagwedd dulliau cymysg |
| 7.2 Dehongli data | • sut i ddehongli graffiau, diagramau, siartiau a thablau er mwyn canfod patrymau a thueddiadau |

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon i'w gweld isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol.

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol.

**AA3**
Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol er mwyn llunio dadleuon, llunio barn a dod i gasgliadau.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu i bob cydran ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Cydran 1** | 20% | 20% | 10% | 50% |
| **Cydran 2** | 20% | 20% | 10% | 50% |
| **Cyfanswm** | 40% | 40% | 20% | 100% |

Ym mhob cyfres arholiadau, bydd o leiaf 15% o'r marciau sydd ar gael yn cael eu dyfarnu am wybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr mewn perthynas â Dulliau Ymchwil.

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid cymryd yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn ystod Haf 2019.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Nodir y cod cofrestru isod.

CBAC Eduqas TGAU Cymdeithaseg: C200QS

Mae'r rhifyn cyfredol o'n dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Cofnodir cymwysterau TGAU ar raddfa naw pwynt o 1 i 9, a 9 yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).



© WJEC CBAC Ltd.